Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Ymgynghoriad Senedd: Cymru Wrth-hiliol Hydref 2023
## Yn cau 06 Hydref 2023

**Trosedd a Chyfiawnder**: Pryderon ynghylch diffyg gweithredu ar adroddiadau am hiliaeth, mynd i'r afael â 'hiliaeth bob dydd' a mathau amlwg o hiliaeth wedi'u targedu at grwpiau penodol (gan gynnwys ymfudwyr a ffoaduriaid) ac anghymesuredd o ran hil yn y system cyfiawnder troseddol.

### *Cylch gorchwyl*

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw:

- Ystyried effeithiolrwydd camau Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r cynllun, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei wneud i 'arwain drwy esiampl' o ran mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol a thrawslywodraethol ynghylch hiliaeth.
- Ystyried cynnydd a threfniadau monitro'r Cynllun, gan gynnwys rôl y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol, iechyd, addysg), y trydydd sector a, phan fo'n gymwys, y sector preifat.
- Ymchwilio i gynnydd yr Uned Gwahaniaethau ar sail Hil, a phenderfynu a oes bylchau o ran casglu data ac a yw'r data'n cael eu dadansoddi'n effeithiol.
- Ymchwilio i ba sianelau cyfathrebu sydd wedi'u sefydlu i sicrhau bod pobl â phrofiad bywyd yn cael gwybod am gynnydd y cynllun a pha newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'r cynllun.
- Gwerthuso effeithiolrwydd y Cynllun yn ei flwyddyn gyntaf, gan gynnwys a yw camau gweithredu wedi cael eu cyflawni, beth yw'r canlyniadau allweddol hyd yn hyn, a darganfod pam na weithredwyd camau sy'n weddill.
- Helpu i ddeall yn well pa ymyriadau eraill sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun ac a oes rhwystrau rhag gweithredu'r cynllun.

### Cyflwyniad

Cafodd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru (Rhwydwaith) ei sefydlu ym mis Ionawr 2021. Diben y Rhwydwaith yw bod yn llais strategol dros ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, drwy gydweithio â'n haelodau i hyrwyddo a chefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol a dylanwadu ar lunio a datblygu polisi cenedlaethol a darpariaeth leol. O ganlyniad i hyn, mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio ar elfen Trosedd a Chyfiawnder yr ymgynghoriad, a drafodir ar dudalennau 115 – 123 yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-12/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol_0.pdf) .

### Ymateb i gamau gweithredu penodol yn y cynllun

Cwblhawyd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ym maes Cyfiawnder Troseddol i Gymru ac mae'n cael ei gyflwyno a'i fonitro drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu ac awdurdodau lleol.

Bu cynnydd yn nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ond yr ydym ni'n deall y gallai hyn gael ei adolygu yn sgil y pwysau economaidd a deimlir ar hyn o bryd o ganlyniad i bandemig Covid a chostau byw. Felly, gall eu heffaith a'u dylanwad parhaus o ran gwella gweithredu cadarnhaol fod yn gyfyngedig.

Mae bylchau o hyd yn ystadegau cyfiawnder troseddol ar ethnigrwydd a hil, er, gall rhai o'r rhain fod o ganlyniad i faterion prosesu data penodol y mae'r mesurau lliniaru yn dal i weithio drwy'r system.

Mae'r Rhwydwaith wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith yn gysylltiedig â theuluoedd myfyrwyr rhyngwladol, ac wedi clywed yn anecdotaidd am yr effaith y mae'r rhain ac eraill yn ei chael ar newid demograffeg cymunedau ledled Cymru. Mae cydlyniant cymunedol gweithredol yn galluogi integreiddio ac mae'n ymddangos ei fod yn helpu i leihau tensiynau posibl.

Mae llawer o drafod a gwybodaeth am droseddau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi dod o Lywodraeth San Steffan ond nad ydynt wedi'u darparu na'u deddfu ar eu cyfer eto. Er enghraifft, Cynllun Gweithredu Gorchfygu Troseddu a Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol. Yn ogystal â hyn, disgwylir i'r Fframwaith Craffu Cymunedol Drafft y mae'r Swyddfa Gartref yn ymgynghori arno ar hyn o bryd ganolbwyntio ar ethnigrwydd a diwylliant yn rhan o'r swyddogaeth graffu.

Mae'n ymddangos bod cydlyniant cymunedol yn parhau i fod yn her wrth i ddemograffeg newid, ond mae rhai enghreifftiau da pan fo awdurdodau lleol a phartneriaid wedi mabwysiadu dull rhagweithiol at hyfforddiant, empathi ac ymwybyddiaeth i alluogi cydlyniant ac atal neu leihau hiliaeth a sefyllfaoedd pan nad yw pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.

Mae'n bosibl y bydd oedi hefyd wrth reoli gwersylla heb awdurdod ag is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i ddisodli'r Ddeddf Crwydraeth nad yw wedi mynd drwy'r broses seneddol lawn eto, er yr ymgynghorwyd yn ei chylch.

**Sylwadau cyffredinol yn ymwneud â Chymru yn cyflawni ar fod yn wrth-hiliol**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ac yn gwrando'n astud ar adborth ac awgrymiadau gan bartneriaid, gan ymchwilio i gyfleoedd i ddysgu ac ymateb i gyflawni'r cynllun yn ôl yr angen. Mae agwedd dim goddefgarwch tuag at hiliaeth wedi'i chryfhau yn dilyn digwyddiadau rhyngwladol a lleol uchel eu proffil yn ddiweddar (mae Keith Floyd yn un enghraifft) ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd i newid polisi, hyfforddiant a meddylfryd cyn y bydd Cymru wrth-hiliol yn rhywbeth y gellir ei gyflawni.

Cynhaliodd y Rhwydwaith seminar ym mis Mehefin 2023 a oedd yn canolbwyntio ar System Cyfiawnder Troseddol Gwrth-hiliol. Tynnodd sylw at y ffaith, er bod adnoddau pob partner yn brin, mae dealltwriaeth bod hyn yn gofyn am ddull system gyfan a fydd ond yn llwyddo os ceir cefnogaeth pob partner yng Nghymru, sydd â phwerau wedi'u datganoli ac wrth gefn. Roedd ymdeimlad bod angen i gasglu data alluogi gweithgarwch rhagweithiol yn ogystal â gweithgarwch adweithiol.

**Ymateb a gyflwynwyd gan:**
Enw: Sarah Capstick
Swydd: Rheolwr Datblygu Busnes a Rhwydwaith

Sefydliad: Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, wedi'i gynnal gan GLlC
Cyfeiriad: Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd CF10 5BF
E-bost: safercommunities@wlga.gov.uk eu sarah.capstick@wlga.gov.uk
Rhif Ffôn: 07384469664